Morfudd Lloyd
Tyddyn Hendre
Cwm Nantcol
Llanbedr
LL452PL

cyngor cymuned **Llanbedr** community council

cyngorllanbedr@gmail.com

Annwyl Aelodau y Senedd

Wel dyma ni o Llanbedr, Meirionnydd, pentref bychain gyda tua 429 o drethdalwyr, ond pentref sydd yn byrlymu drwy fisoedd yr haf.
Posibilrwydd o ffordd osgoi yn 1992 – wedi hen fynd, posibilrwydd eto yn 2021 ond yr arian hynny a'r gwaith wedi ei roi o'r neilltu oherwydd materion amgylcheddol a newid hinsawdd. Mor agos ond eto mor bell. Ond rhaid edrych ymlaen i'r dyfodol yn Ardudwy.
Beth am y gwaith ar arian sydd eisioes wedi ei wario ar yr holl gynlluniau, iddynt fynd i'r gwellt? Gwaith yn yr hen safle milwrol yn yr aerodrome yn Llanbedr, safle sydd yn berchen gan Llywodraeth Cymru. Maent wedi derbyn llawer o grantiau, ond heb gyswllt ffordd iawn, a fydd pethau yn ffynnu yno?
Un peth yw peidio a mynd ymlaen gyda'r cynlluniau, a rhoi nifer o opsiynnau hurt i ni gnoi cil arnynt, ond beth yw'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Blwyddyn arall, haf arall o ansicrwydd a hefyd materion diogelwch sy'n deillio o'r holl draffic sydd yn crynhoi yn y Pentref yn gyson. Yr hen bont hanesyddol, yn ei chanol hi. Tybed a oes yna gynllun argyfwng brys mewn lle ar gyfer y pentref, gan fod pryder parhaus bod y gwasanaethau brys yn methu mynd trwodd ag yn gorfod aros mewn tagfeydd sydd yn cael eu creu yn ddyddiol, yn enwedig yn ystod tymor yr ymwelwyr a gwyliau banc , ac oherwydd hyn yn rhoi bywydau pobl mewn perygl.
Rydych wedi clywed hyn filoedd o weithiau, ond mae hyn yn ffaith. Beth am yr arian a glustnodwyd ar gyfer y gwaith yma.
Mae gan y Cyngor yn Llanbedr weledigaeth, a syniadau , awgrymiadau hyd yn oed y gellid eu hystyried am welliannau megis parcio, palmentydd etc, , opsiynnau amgen i wella diogelwch ar y ffyrdd, annog teithio llesol a lleddfu tagfeydd traffic yn y pentref. Hyderaf y bydd yr opsiynau yma yn cael eu trafod gyda swyddogion Cyngor Gwynedd maes o law, gan obeithio llunio rhai costau cychwynnol a cynlluniau amlinellol. Pan ddaru i'r cynllun ffordd osgoi gael ei ganslo fe wnaethoch gyhoeddi y byddai swm o arian ar gael gan Lywodraeth Cymru (hyd at 7.8 M) i wireddu opsiynnau ecogyfeillgar addas.

**Hoffem fel Cyngor dderbyn gwybodaeth ble yn union aeth arian ffordd mynediad/osgoi Llanbedr, ac a yw'r cymal uchod o addewid o arian yn dal i fodoli, cyn i ni fynd ymlaen gyda trafodaethau gyda Cyngor Gwynedd a codi gobeithion yn yr ardal am welliannau unwaith yn rhagor.**
Gyda'r cynllun cywir, y cymorth ariannol a chefnogaeth y gymuned ac asiantaethau eraill dwi'n rhagweld bod yna botensial i greu darpariaeth lewyrchus yn y pentref er gwaethaf pob dim a phob ymdrech yn y gorffennol i iselhau trigolion Ardudwy, ac i ladd yr economi, drwy fethiant cynllun ffordd osgoi ac o ganlyniad chwalu gobaith am swyddi posib yn y Maes Awyr.

Hyderaf yn fawr y byddwch yn gallu ateb yn fuan.
Mae hefyd nifer wedi cysylltu gyda chwi yn gofyn am gyfarfod. A fyddai hyn y bosib hefyd?

Yn dra diolchgar am eich sylwadau,

Yn gywir iawn ar ran Cymuned Llanbedr

Morfudd Wyn Lloyd (Clerc y Cyngor)

Morfudd Lloyd
Tyddyn Hendre
Cwm Nantcol
Llanbedr
LL452PL

cyngor cymuned **Llanbedr** community council

cyngorllanbedr@gmail.com